**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Mai 2001**

**i'w hateb ar 15 Mai 2001**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi ei gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog y Cynulliad

**1. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Yn ychwanegol at eich llythyr ataf dyddiedig 30/04/2001 a wnewch ddatganiad ar adeiladau'r Cynulliad yng Ngogledd Cymru. (OAQ11352)

**2. Gareth Jones (Conwy);** A fydd yn ceisio sicrhau bod y newidiadau a wneir gan Weinidogion y Cabinet i'r darpariaethau a gynhwysir yn y Cytundeb Partneriaeth yn cael eu cyhoeddi. (OAQ11338)

**3. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff ddatganiad ar Adroddiad Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. (OAQ11337)

**4. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all gyflwyno adroddiad ar unrhyw gynnydd a wnaed wrth weithredu'r polisïau a gynhwysir yn Rhoi Cymru yn Gyntaf. (OAQ11351)

**5. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau a fu rhyngddo â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ynghylch cynnal y rhwydwaith Swyddfa'r Post yng Nghymru. (OAQ11349)

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar gynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cytundeb Partneriaeth. (OAQ11340)

**7. Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch yr adolygiad arfaethedig o wasanaethau ombwsmon y sector cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ11347)

**8. Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch cadw ceiswyr lloches yng ngharchardai Cymru. (OAQ11339)

**9. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Yn dilyn y penderfyniad i beidio â mynd ar drywydd hysbysiad gwahardd ar gyfer y treialon Cnydau GM ym Mathri, a wnaiff y Prif Weinidog

ddatganiad ar effeithiau'r treialon hynny ar iechyd, amgylchedd, economi a thwristiaeth yr ardal leol, ac a gaiff drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch ceisio moratoriwm. (OAQ11332)

**10. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Beth y mae wedi'i wneud i gydlynu polisïau Llywodraeth y Cynulliad ynglyn â datblygiad Maes Awyr Caerdydd. (OAQ11330) **W**

**11. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa sylwadau y mae wedi'u gwneud i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ynghylch mesurau i helpu i sicrhau parhad swyddfeydd post gwledig yng Nghymru (OAQ11346)

**12. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ynghylch cydlynu polisi yng Ngogledd Cymru. (OAQ11329)

**13. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa drafodaethau a fu rhyngddo â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant yn ddiweddar ynghylch parhad rhwydwaith Swyddfa'r Post yng nghefn gwlad Cymru. (OAQ11348)

**14. Elin Jones (Ceredigion);** Sut y bydd yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu polisi er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau Adroddiad Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000. (OAQ11343)

**15. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa gamau y gall ef eu cymryd i gydlynu'r gwaith o ddatblygu polisi yn y Cynulliad Cenedlaethol a thrwy hynny gyfrannu at greu swyddi newydd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. (OAQ11344)

**16. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn rhinwedd ei swydd fel Cydlynydd Polisi, sut y mae'n ceisio sicrhau bod strategaeth gyflogaeth yn cael ei datblygu a fydd yn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd Cymru. (OAQ11336)

**17. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A fydd unrhyw fesurau newydd yn cael eu cyflwyno yn dilyn canfyddiadau Adroddiad Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000. (OAQ11345)

**18. Peter Rogers (Gogledd Cymru**); A wnaiff fynychu cyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd. (OAQ11350)

**19. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar rôl Dirprwy Weinidogion y Cynulliad. (OAQ11333)

**20. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Yn rhinwedd ei swydd fel Cydlynydd Datblygu Polisi, sut y mae'n asesu llwyddiant Llywodraeth Cymru wrth geisio sicrhau bod materion trawsbynciol yn

rhan annatod o holl bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ11341)

**21. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Yn rhinwedd ei rôl fel Cydlynydd Datblygu Polisi, pa gamau y gall ef eu cymryd i sicrhau bod y cymunedau y mae arnynt angen y cymorth cymdeithasol ac economaidd mwyaf yn ei gael. (OAQ11335).

**22. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw ymweliadau diweddar ag atyniadau twristaidd ledled Cymru yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weinidog Cymru. (OAQ 11334)

**23. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** Pa drafodaethau a fu rhyngddo â'i gydweithwyr yn San Steffan parthed mesurau Cyllideb diweddar sydd â'r nod o helpu pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru. (OAQ11331) **TYNNWYD YN OL**

**24. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa gamau y gall ef eu cymryd i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn darparu fframaith holl-gynhwysol ar gyfer pob maes datblygu polisi yn y Cynulliad. (OAQ11342)